# Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio Mynediad (ARLC)

## Penodi Aelodau sy'n Fyfyrwyr

Ebrill 2024

# Cynnwys


**Croeso gan Gadeirydd ARLC .......... 1**

**Ynglŷn â QAA .......... 2**

Ein rôl .......... 2

Ein gwaith .......... 2

Ein rôl newn perthynas â Mynediad i AU .......... 3

**Llywodraethiant .......... 4**

Ein strwythur a'n cyllido .......... 4

Rôl ARLC a'i aelodau .......... 4

**Gwybodaeth a phrofiad perthnasol i aelodau ARLC .......... 6**

Hanfodol .......... 6

Dymunol .......... 6

**Telerau ac amodau .......... 7**

Ymrywmiad amser .......... 7

Tâl .......... 7

Cyfnod y penodiad .......... 7

Sut i wneud cais .......... 7

Gwybodaeth .......... 7

# Croeso gan Gadeirydd ARLC

Annwyl Fyfyriwr,

Hoffem eich gwahodd i wneud cais i ymuno â Phwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio Mynediad (ARLC) Bwrdd QAA i lenwi swydd wag oherwydd bod yr aelod oedd yn fyfyriwr wedi dod i ddiwedd ei gyfnod yn y rôl. Mae ARLC yn bwyllgor o Fwrdd QAA sydd â chyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo am rai gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Cynllun Cydnabyddiaeth Mynediad i AU sy'n llywodraethu'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch.

Rydym yn awyddus i glywed gan fyfyrwyr a allai fod wedi gwneud cwrs Diploma Mynediad i AU yn ddiweddar ac sydd bellach yn y brifysgol i'n helpu i lunio cyfeiriad y Diploma Mynediad i AU yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod bod myfyrwyr yn gallu dod â'u profiad cyfredol i gyfarfodydd, a gall eu persbectif alluogi QAA i gael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr Diploma Mynediad i AU cyfredol trwy'r penderfyniadau a wneir gan ARLC ynghylch rheoleiddio a datblygu'r cymhwyster.

Mae QAA yn Asiantaeth Ansawdd sy'n uchel ei pharch ledled y byd; mae gan yr Asiantaeth brofiad heb ei ail o ddarparu sicrwydd a gwelliant ansawdd rheoleiddiol a chydweithredol diduedd. Rydym yn gweithio ar draws y DU ac yn rhyngwladol i sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr yn derbyn addysg o'r ansawdd uchaf posibl. Rydym yn elusen annibynnol, ac mae llywodraethau a chyrff cyllido yn ymddiried ynom. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr addysg uwch a cholegau, gan gynnwys trwy her adeiladol, eu cefnogi gyda gwelliant tra'n parchu eu hannibyniaeth academaidd.

Rydym hefyd yn gyfrifol am gydnabod a rheoleiddio cyrsiau Diploma Mynediad i AU trwy ein rheolaeth o'r Cynllun Cydnabyddiaeth Mynediad i AU. Rydym yn trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad (ADM) i ddatblygu, sicrhau ansawdd a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA.

Mae QAA ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'r Cynllun Cydnabyddiaeth Mynediad i AU i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y cymhwyster, ei gyrff dyfarnu a rhanddeiliaid, gan gynnwys myfyrwyr, sy'n cynnwys ystyried y meini prawf ar gyfer trwyddedu ADM a'r broses a ddefnyddir ar gyfer eu monitro. Mae gan ARLC rôl bwysig yn y gwaith hwn o oruchwylio a gwneud argymhellion ar gyfer datblygiad y Cynllun sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill tra'n cynnal hyder yn y sector trydyddol.

Mae'r rhain yn rolau hanfodol a heriol, ac rydym yn ceisio dod â safbwyntiau newydd i ARLC mewn cyfnod o newid sylweddol yn y dirwedd cymwysterau ôl-16. Rydym yn gwahodd ceisiadau gan unigolion a fydd yn ymwneud â'n gweledigaeth, a fydd yn llysgenhadon cryf a ran QAA a Mynediad i AU, ac yn cyfrannu at ein gwaith o reoleiddio a datblygu'r trefniadau ar gyfer y Diploma mewn cyfnod o newid a chyfleoedd. Rydym yn chwilio am gynrychiolydd myfyrwyr sydd ag angerdd profedig am fynediad i ymuno â'r Pwyllgor, ac yn ddelfrydol rhywun sydd â phrofiad o'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch, i ddod â her briodol i'r gwaith hwn. Mae QAA yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob rhan o'r gymuned ac yn rhoi gwerth ar amrywioldeb.

Mae bod yn geidwad y Diploma wedi bod yn gyflawniad y mae QAA yn hynod falch ohono. Mae ein balchder yn ein gwaith sy'n ymwneud â Mynediad i AU yn cael ei adlewyrchu yn ffocws Strategaeth QAA 2023-27 ar 'safonau' sy'n amlygu gwerth cymwysterau.

Cewch ragor o wybodaeth am waith QAA mewn Mynediad i AU yn y pecyn hwn ac ar ein gwefan. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â sefydliad sydd â rôl hanfodol yn sector addysg drydyddol y DU, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn ystyried ymuno â'r ARLC ar yr adeg dyngedfennol hon yn natblygiad y Diploma Mynediad i AU.

**Yn gywir**

**Yr Athro Rachid Hourizi**
**Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio Mynediad, QAA**

# Ynglŷn â QAA

1 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) **yw'r corff annibynnol yr ymddiriedir ynddo i fonitro a chynghori ar safonau ac ansawdd academaidd mewn addysg uwch yn y DU**. Wrth i faint, siâp, strwythur a phwrpas y ddarpariaeth ddysgu newid yn y DU ac o gwmpas y byd, mae QAA yn diogelu safonau ac yn cefnogi gwelliant ansawdd i fyfyrwyr - p'un a ydynt yn astudio mewn prifysgol neu goleg yn y DU neu mewn unrhyw leoliad arall ledled y byd lle mae cyrsiau'n arwain at gymwysterau addysg uwch y DU.

2 Mae gan QAA hefyd rôl ymgynghorol a chynghori, gan weithio ar lefel y llywodraeth hyd at sefydliadau unigol, ac mae'n chwarae rhan flaenllaw mewn datblygiadau rhyngwladol ym maes sicrhau ansawdd, trwy aelodaeth o'r Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch a'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Asiantaethau Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch.

3 Mae QAA yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac yn elusen gofrestredig. I gael rhagor o wybodaeth gorfforaethol, gweler ein Hadroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol.

## Ein rôl

4 Rydym yn gorff annibynnol ac yn gweithredu er budd y cyhoedd, myfyrwyr a'n haelodau.

5 Rydym yn asiantaeth ansawdd sy'n arwain y byd gyda phrofiad digymar o ddarparu sicrwydd a gwelliant ansawdd rheoleiddiol a chydweithredol diduedd.

6 Rydym yn cynorthwyo prifysgolion a cholegau i weithio gyda myfyrwyr a dysgwyr, llywodraethau, cyllidwyr a chyrff rheoleiddio i dystiolaethu a gwella ansawdd rhagorol a safonau uchel yr addysg a ddarperir ganddynt.

7 Rydym yn gweithio tuag at ddealltwriaeth well ar ran y cyhoedd - gartref ac yn rhyngwladol - o sut y dangosir ansawdd rhagorol mewn addysg uwch yn y DU, a sut mae darparwyr hunan-reolus yn sicrhau darpariaeth yr ansawdd honno a mynd i'r afael â gwendidau.

8 Mae ein gwaith yn diogelu gwerth cymwysterau i fyfyrwyr a dysgwyr, yn ogystal â diogelu a hyrwyddo enw da addysg uwch.

9 Mae ein gwaith yn seiliedig ar y gred bod profiad academaidd o ansawdd uchel i ddysgwyr yn beth da ynddo'i hun, yn hybu dealltwriaeth a gwybodaeth ddynol, ac yn cynorthwyo cynnydd economaidd a chymdeithasol ehangach.

## Ein gwaith

10 Diben QAA yw sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr yn derbyn addysg o'r ansawdd uchaf posibl.

11 Mae prifysgolion a cholegau ar eu cryfaf pan fydd ganddynt sicrwydd annibynnol, cydweithredol, cymesur ac arbenigol, ynghyd â gwelliant ansawdd.

12 Mae safonau academaidd yn cael eu diogelu gan y cyfeirbwyntiau sy'n eiddo i'r sector y mae QAA yn gofalu amdanynt, gan gynnwys Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch, Fframweithiau Cymwysterau a Datganiadau Meincnod Pwnc. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer diogelu gwerth cymwysterau ac i enw da rhyngwladol sector y DU.

13 Mae ein harbenigedd yn helpu prifysgolion a cholegau i fodloni a chydbwyso gofynion rheoleiddio, gan gynnwys rhai cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRBs), a hynny mor gost-effeithiol â phosibl.

14 Wrth i bolisi, arfer a thechnoleg newid, rydym yn helpu prifysgolion a cholegau i ragweld ac ymateb i ddatblygiadau newydd, yn hyderus bod ein harweiniad yn ddiduedd ac yn cynrychioli arfer gorau rhyngwladol.

15 Mae ein hymagwedd at wella ansawdd sy'n arwain y byd yn hwyluso meincnodi rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol darparwyr, yn ogystal â ffurfio sail i ymdrechion prifysgolion a cholegau eu hunain i ddarparu addysg o'r radd flaenaf.

16 Rydym yn ffurfio sail i addysg drawswladol y DU ac yn chwarae rhan amlwg wrth wella enw da sector y DU a meithrin perthnasoedd.

## Ein rôl mewn perthynas â Mynediad i AU

17 Rydym wedi rheoleiddio Cynllun Cydnabyddiaeth QAA ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers 1997. Mae Cynllun Cydnabyddiaeth QAA ar gyfer Mynediad i AU yn cynnwys rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU, ei gyrff dyfarnu (Asiantaethau Dilysu Mynediad - ADM), ynghyd â sicrhau ansawdd cyrsiau Mynediad i AU.

18 Rydym yn gweithredu prosesau monitro i gadarnhau bod yr ADM yn bodloni'r meini prawf trwyddedu. Mae'r ADM (wyth yn Lloegr ac un yng Nghymru) yn gyrff dyfarnu sy'n annibynnol yn gyfreithiol ac yn ariannol, er bod pob un ohonynt yn cynnal perthnasoedd gweithio gyda gwahanol fathau o ddarparwyr addysg bellach ac addysg uwch.

19 Rydym yn cynnal cronfa ddata y gellir ei chwilio'n gyhoeddus o'r holl Ddiplomâu Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA. Mae'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch yn gymhwyster Lefel 3 a gydnabyddir yn genedlaethol ac a ddatblygwyd yn benodol i baratoi oedolion ar gyfer pontio i addysg uwch. Mae Diplomâu Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA yn gymwys i gael eu hariannu gan yr Asiantaeth Gyllido Addysg a Sgiliau neu ar gyfer benthyciadau gan Gyllid Myfyrwyr yn Lloegr. (Mae ffrydiau ariannu eraill ar gael yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.)

20 Rydym yn casglu ac yn cyhoeddi ystadegau am gyrsiau Mynediad i AU a chyflawniadau myfyrwyr a'u dilyniant, sydd, ynghyd â gwybodaeth arall am Fynediad i AU, ar gael i ddarpar fyfyrwyr ac eraill ar ein gwefannau (www.accesstohe.ac.uk; www.qaa.ac.uk/access-to-he). Mae yna dros 1,200 o gyrsiau Diploma Mynediad i AU, a gyflwynir gan fwy na 300 o ddarparwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac mae dros 75% ohonynt yn golegau addysg bellach. Mae Diplomâu Mynediad i AU yn arwain at symud ymlaen i addysg uwch yn achos bron i 25,000 o fyfyrwyr bob blwyddyn.

21 Rydym wedi datblygu Cynllun Manyleb a Graddio Diplomâu. Cyflwynwyd y fanyleb cymwysterau gyfredol ar gyfer y Diploma Mynediad i AU yn 2014-15; mae hon wedi'i diwygio a, gyda Chynllun Graddio wedi'i ddiweddaru, bydd yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024-25.

22 Rydym yn cynnal cysylltiadau â'r holl randdeiliaid i sicrhau bod Diplomâu Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA yn gynaliadwy ac yn cael eu diogelu. Rydym yn adeiladu ar ein partneriaethau cryf gyda'r sector addysg i sicrhau bod yr agweddau unigryw ar gymwysterau Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA, fel cymwysterau dilyniant Lefel 3 hyblyg ac ymatebol a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer oedolion, yn gallu bod o fudd i fyfyrwyr, sefydliadau cyflwyno a derbyn, yn ogystal â'r cymunedau yng Nghymru y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt.

# Llywodraethiant

## Ein strwythur a'n cyllido

23 Rydym yn gorff annibynnol, yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant.

24 Caiff QAA ei chyllido trwy nifer o sianeli:

- ffioedd aelodaeth gan ddarparwyr addysg uwch
- contractau a chytundebau gyda chynghorau cyllido a sefydliadau'r DU y mae QAA yn adrodd iddynt yn flynyddol
- contractau preifat, ymgynghoriaeth a gwaith datblygu busnes yn y DU ac yn rhyngwladol
- ffioedd a thaliadau cynhaliaeth a delir gan ddarparwyr addysg uwch sy'n ceisio goruchwyliaeth addysgol at ddibenion mewnfudo fel sy'n ofynnol gan y Swyddfa Gartref.

25 Mae ein Bwrdd, trwy'r Trysorydd Mygedol, yn gyfrifol am y modd y cynhelir ein trafodion ariannol, ac am fonitro ein perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt ar lefel gorfforaethol.

26 Caiff QAA ei llywodraethu gan ein Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddatblygu polisi, am y modd y cynhelir ein trafodion ariannol, ac am fonitro ein perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt ar lefel gorfforaethol. Gweler ein Herthyglau Cydgymdeithasu am ragor o wybodaeth.

27 Mae mwy o wybodaeth am Aelodau'r Bwrdd a Bwrdd QAA i'w gweld ar ein gwefan.

## Rôl ARLC a'i aelodau

28 Mae ARLC yn un o bwyllgorau'r Bwrdd, ac felly mae'n adrodd ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau ar weithgarwch monitro ADM ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch cyflwyno a dileu trwyddedau ADM, ac yn cynghori ar ddatblygiadau sylweddol mewn meysydd eraill o weithgareddau Mynediad i AU QAA.

Mae gan y Pwyllgor 12 aelod (gyda dau arall o bosibl trwy gyfethol), gan gynnwys dau aelod o'r Bwrdd (un ohonynt yn Gadeirydd y Pwyllgor); tri aelod o'r sector addysg uwch; tri aelod o'r sector addysg bellach; un cynrychiolydd cyflogwr, dau aelod arall â phrofiad priodol (a all ddod o addysg bellach neu addysg uwch neu a allai fod â phrofiad perthnasol arall), ac un aelod sy'n fyfyriwr yn astudio mewn addysg uwch ar hyn o bryd gyda diddordeb amlwg mewn mynediad i addysg uwch ac sydd, yn ddelfrydol, wedi graddio'n ddiweddar ar gwrs Diploma Mynediad i AU.

29 Mae'r Bwrdd yn dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor oruchwylio:

- fframwaith QAA ar gyfer cydnabod cyrsiau Mynediad i AU, a threfniadau cysylltiedig (Cynllun Cydnabyddiaeth QAA ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch), ynghyd â gwneud argymhellion ar ei ddatblygiad i Fwrdd QAA, neu awdurdod arall, fel y bo'n briodol
- cam cyntaf y broses drwyddedu ar gyfer ADM; derbyn adroddiadau ar ymweliadau'n ymwneud â chais am drwydded; a gwneud argymhellion i Fwrdd QAA ynghylch cyflwyno trwyddedau ADM newydd

- monitro ADM er mwyn ffurfio sail i benderfyniadau trwyddedu, a gwneud argymhellion i Fwrdd QAA ynghylch dileu trwyddedau ADM lle bernir nad yw ADM yn bodloni, neu'n methu â bodloni, gofynion y meini prawf ar gyfer trwyddedu
- datblygu'r cymhwyster Mynediad i AU, gan gyfeirio at brif ddiben y cymhwyster o ddarparu paratoad ar gyfer astudio mewn addysg uwch.

30 Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, mae gan aelodau ARLC gyfrifoldeb penodol i:

- ymgyfarwyddo â dogfennaeth y Cynllun Cydnabyddiaeth a gofynion y Cynllun Cydnabyddiaeth
- darllen papurau pwyllgor yn ofalus, a chyfrannu'n llawn at drafodaethau'r Pwyllgor.

31 O bryd i'w gilydd, efallai y gofynnir i aelodau ddarparu cyngor arbenigol rhwng cyfarfodydd. Gellir gwahodd aelodau hefyd i wasanaethu ar weithgorau a grwpiau datblygu a sefydlir gan ARLC.

32 Mae cyfrifoldebau llawn cyfarwyddwyr cwmni ac ymddiriedolwyr elusen, sydd hefyd yn berthnasol i aelodau ARLC, wedi'u nodi'n fanwl yn y Côd Arfer Gorau ar gyfer Aelodau Bwrdd QAA.

## Gwybodaeth a phrofiad perthnasol i aelodau ARLC

33 Mae aelodau ARLC yn meddu ar y cyd y wybodaeth a'r arbenigedd sydd eu hangen er mwyn i'r Pwyllgor allu cyflawni ei gylch gwaith yn effeithiol.

34 Mae angen i aelodau ARLC hefyd ddod ag annibyniaeth meddwl a phersbectif ehangach i drafodaethau'r Pwyllgor, gan ddefnyddio ehangder eu profiad wrth wneud penderfyniadau diduedd. Nid oes disgwyl i aelodau weithredu fel eiriolwyr neu gynrychiolwyr unrhyw ADM penodol neu fathau o ADM; sefydliadau unigol neu fathau o sefydliadau; neu fuddiannau sectoraidd sydd wedi'u diffinio'n gul. Mae natur reoleiddiol busnes ARLC yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau allu cynnal safonau cyfrinachedd llym.

35 Wrth gynnal busnes y pwyllgor, disgwylir i holl aelodau ARLC ddangos:

- tystiolaeth o sgiliau pwyllgora megis: gwrthrychedd, annibyniaeth meddwl a barn dda; agwedd golegol at wneud penderfyniadau; parodrwydd i rannu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd er budd y pwyllgor a'r rhai sy'n elwa ar ei waith
- parodrwydd amlwg i dderbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau aelodaeth y pwyllgor a'r gallu i ymrwymo i ofynion ac anghenion y rôl, gan gynnwys y gallu i fynychu a chymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd

36 Disgwylir i fyfyrwyr sy'n ymgeisio am rôl fel aelod o ARLC allu dangos y nodweddion canlynol:

### Hanfodol

- maent ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer cymhwyster lefel uwch gyda darparydd addysg uwch yn y DU
- sgiliau llafar ac ysgrifenedig da, sy'n caniatáu iddynt gyfathrebu'n effeithiol
- parodrwydd i ymrwymo i waith y pwyllgor, er enghraifft trwy baratoi ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor a chymryd rhan ynddynt
- y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o bwyllgor neu dîm
- parodrwydd i fynegi a chynrychioli safbwyntiau myfyrwyr mewn cyfarfodydd
- ymwybyddiaeth gyffredinol ac ymwneud â materion cyfredol ym myd addysg, yn enwedig y materion hynny a all effeithio ar y Diploma Mynediad i AU a myfyrwyr hŷn.

### Dymunol

- maent yn fyfyrwyr israddedig cyfredol neu flaenorol sydd â phrofiad o ymgymryd â chymhwyster Mynediad i AU[1]
- ymwybyddiaeth o sicrwydd ansawdd mewn addysg bellach a/neu addysg uwch, er enghraifft fel cynrychiolydd myfyrwyr ar gwrs

[1] Mae ARLC yn credu'n gryf y dylai'r aelod sy'n fyfyriwr fod yn rhywun sydd wedi graddio o Ddiploma Mynediad i AU ac sy'n astudio mewn addysg uwch ar hyn o bryd.

- diddordeb mewn polisi addysg uwch yn ymwneud ag ehangu cyfranogiad, symudedd cymdeithasol a mynediad teg
- ymwybyddiaeth o weithrediad ADM.

# Telerau ac Amodau

## Ymrwymiad amser

37 Mae ARLC fel arfer yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn; cynhelir cyfarfodydd rhithwir.

## Tâl

38 Nid yw aelodau ARLC yn derbyn unrhyw dâl. Bydd treuliau rhesymol sydd wedi'u dogfennu'n gywir yn sgil cyflawni dyletswyddau aelodau ARLC yn cael eu had-dalu yn unol â pholisïau QAA lle mae presenoldeb mewn cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb yn angenrheidiol.

## Cyfnod y penodiad

39 Gwneir penodiadau ar gyfer aelodau sy'n fyfyrwyr am gyfnod o ddwy flynedd, na ellir eu hymestyn am fwy nag un cyfnod ychwanegol o flwyddyn, ar yr amod bod y meini prawf ar gyfer aelodaeth yn cael eu bodloni o hyd.

## Sut i wneud cais

40 I wneud cais, anfonwch ddatganiad byr o'r hyn y gallwch chi ei gyfrannu at y rôl, ynghyd â'ch CV i vacancies@qaa.ac.uk.

41 Byddwn yn trin pob ymholiad, ffurfiol ac anffurfiol, yn gyfrinachol.

42 Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **23:59**, **ddydd Sul 30ain Mehefin 2024**.

43 Cynhelir cyfweliadau rhithwir yn ystod yr wythnos yn dechrau 15fed Gorffennaf 2024.

## Gwybodaeth bellach

44 I gael trafodaeth gyfrinachol am y rôl hon, cysylltwch â Charlotte Collard, Rheolwr Diploma Mynediad i AU neu Ann-Marie Karadia, Swyddog Diploma Mynediad i AU, ar ahe@qaa.ac.uk neu 01452 557060.

Cyhoeddwyd – Ebrill 2024

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2023
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk